Adroddiad ar gyfer

# Li'l Angels Day Nursery and Pre School

Uned 2 Evans Way
Rowleys Park
Shotton
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 1QJ

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn â Li'l Angels Day Nursery and Pre School

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Li’l Angels Day Nursery and Pre School |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Li’l Angels Day Nursery and Pre School |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Karen King ac Adrijana Owen |
| Person â chyfrifoldeb | Karen King a Lynsey Bostock |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Ystod oedran y plant | 0 hyd at 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 24 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Rhwng 8.00 a 5.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud llawer o ymdrech i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 21 Mehefin 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2018 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 24/02/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond nodir bod hyn yn faes i'w wella, a bod yn rhaid i'r unigolion cyfrifol fynd i'r afael ag ef.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheoliad 22 drwy sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant wyneb yn wyneb addas ar ddiogelu a'u bod yn deall ac yn gweithredu polisi diogelu'r lleoliad yn llawn.

Bydd gwybodaeth am bob achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb o Weithredu a Gwelliant, a gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Gwella cysondeb wrth gynllunio er mwyn adlewyrchu diddordebau'r plant yn fwy llawn

A2 Cryfhau'r prosesau hunanwerthuso er mwyn cynnwys pob aelod o'r staff a phob rhanddeiliad

A3 Ymdrin â'r maes diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Da

Mae bron pob plentyn yn defnyddio ei lais ac yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio ei amser. Maent yn symud yn o gwmpas yr amgylchedd yn hawdd ac yn dewis ble i chwarae a beth i'w chwarae. Mae'r plant yn cyfleu eu hanghenion ac mae'r ymarferwyr yn gwrando ac yn ymateb yn effeithiol. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus, gan ddefnyddio iaith lafar ac amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu dieiriau megis pwyntio, ystumio, neu amneidio i nodi eu hanghenion a'u dewisiadau. Mae bron pob plentyn yn rheoli ei drefn arferol ei hun yn effeithiol, gan gynnwys dewis gorffwys neu gysgu pan fydd yn teimlo'n flinedig.

Mae bron pob plentyn yn setlo'n dda ac yn gwahanu'n hawdd oddi wrth ei rieni neu ei ofalwyr. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn hyderus, ac yn barod i ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, gan eu bod yn ymddiried bod yr ymarferwyr yn deall eu dewisiadau unigol ac yn ymateb iddynt. Maent yn gwneud ffrindiau cadarn ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a magwrus â'r ymarferwyr, gan rannu eu profiadau yn eiddgar â'r rhai o'u cwmpas. Mae'r plant wedi ymlacio ac yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn cymryd rhan yn dda yn arferion y lleoliad ac yn eu dilyn yn hawdd. Maent yn dangos parch at eraill ac yn rhannu'r adnoddau sydd ar gael yn naturiol. Er enghraifft, wrth aros eu tro i ddefnyddio cyfarpar megis y si-so neu'r llithren. Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn chwarae'n hapus ochr yn ochr ag eraill, er enghraifft wrth ymuno â gemau pêl y tu allan.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser yn eu hardal chwarae ddewisol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu eu profiadau â ffrindiau ac yn dangos i'r oedolion yn gyffrous yr hyn y maent yn ei wneud ac yn gwahodd eraill i ymuno. O ganlyniad, mae'r plant yn gwenu ac yn chwerthin yn naturiol wrth chwarae, er enghraifft, pan fyddant yn mynd ar eu beiciau cydbwyso yn yr awyr agored.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau drwy chwarae. Maent yn datblygu sgiliau corfforol cryf wrth iddynt ddringo'n rheolaidd ar yr offer chwarae sefydlog a chymryd rhan mewn gemau pêl yn yr awyr agored. Maent yn dechrau defnyddio eu sgiliau motor manwl yn llwyddiannus wrth archwilio'r hambwrdd tywod a chreu siapiau â thoes chwarae. Mae'r plant iau yn defnyddio'r dodrefn a'r cyfarpar i gefnogi datblygiad eu sgiliau symudedd cynnar. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth drwy

gydol y dydd ac yn gynyddol hyderus wrth gwblhau tasgau hunanofal. Maent yn gwneud dewisiadau unigol ynghylch yr adnoddau a'r gweithgareddau y maent yn dymuno ymgysylltu â nhw.

### Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos sgiliau cyfathrebu cryf ac yn defnyddio iaith briodol yn ystod profiadau chwarae digymell a rhai a gynlluniwyd. Er enghraifft, maent yn siarad yn hyderus am y robotiaid sy'n gallu cerdded y maent wedi'u creu, gan ddefnyddio iaith ddisgrifiadol gynnar. Mae llawer o'r plant, gan gynnwys y rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae rhai plant yn defnyddio geirfa gyfoethog i greu straeon dychmygus, er enghraifft disgrifio siarcod wrth chwarae yn ardal traeth y byd bach. Gall lleiafrif o'r plant ddweud geiriau Cymraeg syml ac mae’r rhan fwyaf yn ymuno’n frwdfrydig wrth ganu rhigymau a chaneuon Cymraeg. Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar straeon yn cael eu darllen gan yr ymarferwyr. Mae rhai plant yn dewis llyfrau’n annibynnol, yn troi tudalennau yn eu trefn, ac yn trafod y darluniau. Mae rhai plant yn mynd at lyfrau’n annibynnol gan droi tudalennau yn eu trefn a thrafod y darluniau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Er enghraifft, wrth gasglu eu cotiau ar gyfer chwarae awyr agored neu helpu i dacluso'r ystafell. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gweithgareddau gwneud marciau ac yn datblygu sgiliau ysgrifennu cynnar yn briodol. Maent yn ymfalchïo mewn defnyddio pennau paent i greu lluniau lliwgar ac yn falch iawn o weld eu gwaith celf yn cael ei arddangos ar y wal.

Mae sgiliau corfforol bron pob plentyn yn datblygu'n dda. Maent yn dangos cydbwysedd a chydlyniad da wrth iddynt lywio cwrs rhwystrau wedi'i wneud o gratiau llaeth, ac yn mwynhau defnyddio beiciau a sgwteri yn yr ardal awyr agored. Mae'r plant yn datblygu eu cydlyniad ymhellach wrth iddynt drosglwyddo dŵr rhwng cynwysyddion gan ddangos cywirdeb a rheolaeth gynyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus ynglŷn â'r adnoddau y maent am eu defnyddio. Er enghraifft, maent yn trin toes chwarae gan ddefnyddio rholbrenni ac yn defnyddio eu dwylo i greu siapiau llyfn, gan ddangos cryfder cynyddol yn eu dwylo a sgiliau motor manwl. Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu ystod eang o sgiliau rhifedd ac yn eu cymhwyso’n llwyddiannus wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio byrddau pegiau i greu patrymau ac yn adnabod siapiau teganau adeiladu magnetig. Mae'r plant hefyd yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, er enghraifft wrth iddynt drafod pa gar sy'n teithio i lawr y ramp gyflymaf. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau creadigol yn dda ac yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu hunain drwy gerddoriaeth a symud. Maent yn symud yn frwdfrydig fel cwningod, cathod a llewod ac yn dawnsio i ganeuon poblogaidd a hwiangerddi.

Mae'r plant yn dechrau datblygu eu hannibyniaeth wrth iddynt wisgo eu cotiau a defnyddio llwyau i fwyta eu grawnfwyd. Maent hefyd yn datblygu sgiliau digidol da, gan ddefnyddio'r til arian parod a chardiau yn hyderus yn y siop chwarae rôl a mwynhau archwilio'r goleuadau sy'n newid lliw. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd wrth chwarae.

### Gofal a datblygiad:  Digonol

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel.  Maent yn cadw'r drysau allanol ar glo ac yn rheoli mynediad i'r safle yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda, gan symud o gwmpas yr ardaloedd a sicrhau bod y plant bob amser o fewn golwg. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd sy'n sicrhau bod plant yn dod yn gyfarwydd â'r hyn i'w wneud mewn argyfwng. Mae tua hanner yr ymarferwyr yn glir ynglŷn â'r camau i'w cymryd pe bai ganddynt bryderon ynghylch diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn bodloni gofynion diogelu ac mae hyn yn destun pryder, gan nad yw rhai o'r ymarferwyr yn gallu esbonio'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau ac arferion priodol i hyrwyddo ffordd iach o fyw. Maent yn darparu prydau bwyd a byrbrydau maethlon, gan gynnwys amrywiaeth o ffrwythau, ac yn sicrhau y gall y plant gael diodydd fel y mynnont drwy gydol y dydd. Maent yn cyflawni gofal personol mewn modd sensitif ac effeithiol er mwyn cynnal urddas y plant bob amser. Mae'r ymarferwyr yn dilyn trefniadau glanhau priodol, megis sychu arwynebau a chefnogi arferion golchi dwylo, er mwyn atal germau rhag lledaenu.

Mae bron pob ymarferydd yn rhyngweithio'n dda â'r plant.  Maent yn cyfathrebu â nhw mewn modd cyfeillgar a diddorol ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn y mae'r plant yn ei rannu, gan eu helpu i ddatblygu eu sgiliau lleferydd ac iaith. Mae'r ymarferwyr yn eistedd ochr yn ochr â'r plant yn ystod amseroedd byrbryd a chinio, gan greu profiad cymdeithasol hamddenol i'r plant. Mae'r dull hwn yn annog sgyrsiau ac yn galluogi rhyngweithiadau cadarnhaol, ac mae'r plant yn mwynhau treulio amser gyda'r ymarferwyr a'u ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad priodol, megis tynnu sylw a siarad â'r plant am yr ymddygiad disgwyliedig. Maent yn cymhwyso'r strategaethau hyn yn bwyllog, sy'n cyfrannu'n dda at gynnal amgylchedd hamddenol.

Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi'r plant i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u personoliaethau, sy'n eu galluogi i ddarparu cymorth wedi'i deilwra. Mae hyn yn cynnwys cymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae rhai ymarferwyr yn defnyddio’r Gymraeg, gan gyflwyno patrymau iaith sylfaenol i'r plant a darparu cymorth addas i'r plant nad Saesneg yw iaith y cartref. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod eu gwaith cynllunio'n ystyried anghenion datblygiadol y plant yn briodol, fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y lleoliad nac yn adlewyrchu diddordebau unigol y plant.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Maent yn darparu ystod werth chweil o weithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft gwneud marciau creadigol, teganau adeiladu diddorol, a gemau chwarae rôl cyffrous. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da o ran eu dysgu dros amser. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o Gwricwlwm Cymru, ac maent yn ystyried yn ofalus sut i wneud y defnydd gorau o oedolion, profiadau a'r amgylchedd. Maent yn rhoi ystyriaeth briodol i ddiddordebau'r plant, ac yn dechrau ystyried y wybodaeth hon wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnal ystod effeithiol o weithgareddau asesu, ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol yn seiliedig ar hyder a dysgu blaenorol y plant. Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â'r rhieni a'r gofalwyr er mwyn cael dealltwriaeth o gryfderau pob plentyn a'i feysydd i'w datblygu. Er enghraifft, bydd y rhieni'n cyfrannu gwybodaeth am ddiddordebau a chyflawniadau eu plant gartref yn ystod wythnosau ffocws penodol, pan fydd yr ymarferwyr yn casglu tystiolaeth am blant unigol. Er enghraifft, ychwanegwyd anifeiliaid fferm a ffensys at hambyrddau tywod bach.

Mae llawer o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cefnogi eu chwarae yn effeithiol. Maent yn deall pryd i ymyrryd yng ngweithgareddau'r plant, a phryd i sefyll yn ôl ac arsylwi. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn manteisio ar gyfleoedd digymell i ymgysylltu â'r plant ac ymestyn eu dysgu wrth chwarae.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ymddygiad y plant. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ymwneud yn gadarnhaol ag eraill a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae llawer o'r ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol ac yn dechrau defnyddio cwestiynau meddylgar i herio a helpu'r plant i ddysgu wrth chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ac adnoddau buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau gwneud marciau ac ysgrifennu cynnar yn yr ardaloedd darpariaeth, sydd ag amrywiaeth o gyfarpar. Maent yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau rhifedd yn dda drwy ddefnyddio ystod o gyfarpar cyfrif, mesur a didoli ar draws y ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr hefyd yn darparu ystod effeithiol o adnoddau i ddatblygu sgiliau digidol y plant, megis llechi dwyieithog. Maent yn annog mynegiant unigol, sy'n helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau creadigol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio ychydig o ymadroddion Cymraeg yn ystod rhyngweithiadau dyddiol, ac mae cyflwyno 'gair Cymraeg yr wythnos' yn cefnogi eu hyder a'u dealltwriaeth ymhellach.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i'r plant feithrin ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod. Er enghraifft, maent yn creu gweithgareddau synhwyraidd gan ddefnyddio ewyn eillio a thywod. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol,

cymdeithasol a diwylliannol yn dda.  Mae gan y plant fynediad at adnoddau sy'n cynnig delweddau cadarnhaol o amrywiaeth. Mae'r ymarferwyr yn arddangos baneri sy'n cynrychioli treftadaeth y plant ochr yn ochr â baner Cymru, ac mae cornel gartref y lleoliad yn cynnwys eitemau cartref o amrywiaeth o ddiwylliannau.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda at greu ethos cynhwysol. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch, ac yn cefnogi'r plant yn amyneddgar i ddeall y gwahaniaeth rhwng da a drwg, er enghraifft wrth iddynt aros i gymryd eu tro ar y beiciau tair olwyn.

## Yr Amgylchedd:  Da

Mae'r arweinwyr yn rhoi mesurau addas ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel.  Mae'r ymarferwyr yn gofalu am y plant mewn amgylchedd diogel.  Er enghraifft, maent yn cloi'r drysau allanol, yn rheoli mynediad, ac yn cofnodi pob ymwelydd. Maent yn cwblhau asesiadau risg priodol ac yn rheoli peryglon yn effeithiol drwy wiriadau boreol a gynhelir bob dydd. Mae'r ymarferwyr yn dilyn trefn lanhau effeithiol sy'n cadw'r feithrinfa'n lân ac yn daclus. Mae'r arweinwyr yn trefnu bod yr holl gyfarpar tân yn cael ei wasanaethu ac yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yr adeilad yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir.

Caiff y plant eu grwpio mewn ystafelloedd gwahanol, yn ôl eu hoedran, gan roi lle iddynt chwarae a dysgu’n ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn cynnal a chadw pob ystafell yn dda ac mae'r defnydd o liwiau niwtral yn creu awyrgylch hamddenol.  Mae'r amgylchedd yn addas i blant, ac mae'r ymarferwyr yn arddangos enghreifftiau o'u gwaith mewn modd deniadol er mwyn hyrwyddo ymdeimlad y plant o falchder a pherthyn. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn defnyddio’r gofod yn dda ac maent yn cydlynu'r broses o rannu’r ardal awyr agored yn effeithiol, fel bod y plant yn gallu ei defnyddio'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd awyr agored yn groesawgar ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a diddorol i'r plant ddatblygu drwy chwarae. Mae'n eang ac yn cynnwys mannau priodol sy'n gwahodd y plant i ddringo, mynd ar gefn beiciau cydbwyso, neu eistedd a darllen llyfr. Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleusterau addas, gan gynnwys toiledau, cyfleusterau golchi dwylo, ac ardaloedd newid cewynnau.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau a chyfarpar sy'n briodol i oedran y plant. Mae'r ymarferwyr yn storio adnoddau’n dda fel bod y plant yn gallu cael gafael arnynt hawdd, ac maent yn eu cadw’n lân ac mewn cyflwr da. Mae'r ymarferwyr yn dechrau cyflwyno deunyddiau naturiol ac adnoddau dilys ar draws yr amgylchedd, er enghraifft offer cegin go iawn yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r ychwanegiadau hyn yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac yn gwella eu chwarae dychmygus yn dda.  Mae rhai cyfleoedd i'r plant ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol drwy lyfrau a doliau, sy'n helpu i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant mewn modd priodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben addas sy'n rhoi gwybodaeth allweddol i'r rhieni. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn creu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu meithrin a'u bod yn cael gofal da.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr gymwysterau priodol a rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygiad yr ymarferwyr. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn mynychu hyfforddiant rheolaidd, megis ar y Cwricwlwm i Gymru a chyfathrebu, gan arwain at newidiadau cadarnhaol i'r lleoliad. Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o Gymraeg sylfaenol; fodd bynnag, prin yw'r adnoddau Cymraeg a ddyrennir ar draws y lleoliad. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau'n rheolaidd; fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar osod blaenoriaethau.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r grantiau sydd ar gael, er enghraifft, drwy brynu adnoddau awyr agored ychwanegol i gefnogi datblygiad corfforol y plant. Mae gan y lleoliad gynlluniau wrth gefn addas ar gyfer trefniadau staffio.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’i gryfderau a’i feysydd i’w gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfleu cynlluniau gweithredu yn ddigon cyson i sicrhau gwelliant parhaus, ac nid yw barn rhanddeiliaid bob amser yn cael ei hystyried yn llawn.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol, ac mae trafodaethau dyddiol pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant yn cefnogi hyn ymhellach. Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithgareddau megis sesiynau 'Aros a Chwarae', gan roi cyfleoedd gwerth chweil i'r rhieni gael mwy o ddealltwriaeth o werth chwarae. Mae cyfathrebu drwy ap ar-lein yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd eu plentyn. Mae ymwelwyr, megis yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn darparu profiadau dysgu gwerth chweil a chyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian cymunedol, gan helpu i ddyfnhau ymdeimlad y plant o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau trefniadau effeithiol sy'n cefnogi'r plant yn dda wrth iddynt symud rhwng ystafelloedd a dechrau yn yr ysgol gynradd. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth i arferion newid.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod ym mhob achos y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2026